



Department for
Digital, Culture,
Media & Sport

 Department for Digital, Culture, Media & Sport

**GIGABIT BROADBAND
VOUCHER SCHEME**



Telerau ac Amodau Buddiolwyr

Cynllun Talebau Band Eang Gigabit

22/03/2019

Fersiwn 4.2



Ariennir yn Rhannol gan
Lywodraeth Cymru
Part Funded by
Welsh Government




Telerau ac Amodau

Mae'r telerau ac amodau canlynol yn berthnasol i'r cynnig hwn o **Daleb Band Eang Gigabit** o dan Gynllun Talebau Band Eang Gigabit (y **Cynllun**). Yn y telerau hyn, mae "rydym" a "ni" yn cyfeirio at yr Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, ac mae "rydych" a "chi" yn cyfeirio at y BBaCh neu fuddiolwr preswyl perthnasol (lle y bo'n berthnasol).

Mae Fersiwn 4.2 o'r telerau ac amodau hyn yn weithredol o [insert date]. Rydych yn rhwym i delerau'r Cynllun sydd mewn grym ar y dyddiad y bydd eich cyflenwr yn gwneud cais am daleb ar eich rhan.

1. Fy nghysylltiad:

- i. Er mwyn bod yn gymwys i gael grant taleb, rhaid i chi drefnu cysylltiad band eang **newydd** sy'n bodloni rheolau'r Cynllun y mae eich cyflenwr wedi cytuno i'w dilyn, sydd ar gael i'w darllen yn <https://gigabitvoucher.culture.gov.uk>. Hefyd, rhaid iddo fod o leiaf ddwywaith yn gynt na chyflymder eich cysylltiad band eang presennol – gweler yr adran ar Ofynion Cysylltedd isod am ragor o fanylion.
- ii. Rhaid i'r contract y byddwch yn ymrwymo iddo gyda'ch dewis gyflenwr fod am gyfnod o 12 mis o leiaf, heb unrhyw gyfnodau am ddim.
- iii. Os ydych yn BBaCh sy'n gweithredu o nifer o leoliadau, gallwch ddefnyddio taleb tuag at gost mwy nag un cysylltiad hyd at uchafswm gwerth taleb perthnasol y Cynllun. **Dim ond** ar gyfer cysylltiadau cymwys ar safleoedd lle'r ydych yn masnachu'n weithredol neu (yn achos buddiolwyr preswyl) yn byw y gellir defnyddio talebau. Gallai hwn fod yn swyddfa gofrestredig a/neu'n gyfeiriad(au) masnachu yn achos buddiolwyr sy'n BBaCh.
- iv. Os oes mwy nag un busnes yn gweithredu o'r un lleoliad **a rennir**, rydym yn cadw'r hawl i gyfyngu nifer y buddiolwyr ar y safle i un.
- v. Rydym yn cadw'r hawl i roi'r gorau i gyhoeddi talebau unrhyw bryd cyn 31 Mawrth 2021 (pan fydd y Cynllun yn dod i ben).
- vi. Pan fyddwch yn ymrwymo i gysylltiad newydd gan eich cyflenwr a gefnogir gan daleb, rhaid i'ch cyflenwr anfon cais am daleb atom ar eich rhan gan ddefnyddio'r porth ar-lein a ddarperir gan y Cynllun. Rhaid i chi gytuno cyn pen 28 diwrnod drwy ymateb i neges e-bost y byddwch yn ei -hanfon i'r cyfeiriad e-bost y byddwch yn ei roi i'ch cyflenwr. Os na fyddwch yn cytuno o fewn y cyfnod hwn o amser, gallai cais eich cyflenwr am daleb ar eich rhan gael ei ganslo.
- vii. Rhaid i'ch cysylltiad newydd gael ei osod cyn pen 12 mis i'r cynnig o daleb. Os na fydd eich cyflenwr yn gallu darparu eich cysylltiad newydd erbyn y dyddiad hwn, caiff y daleb ei diddymu ac ni fydd y grant ar gael mwyach. Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gostau cysylltiadau na chânt eu darparu cyn pen 12 mis i'r cynnig o daleb.
- viii. Nid yw'r cynnig o daleb, na pha un a chaiff ei rhoi ai peidio yn unol â'r telerau ac amodau hyn, yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar y contract gwasanaeth rydych wedi ymrwymo iddo gyda'ch dewis gyflenwr.

- 
- ix.** Dim ond os ydynt yn rhan o brosiectau a gymeradwywyd gennym y gall preswylwyr gymryd rhan yn y Cynllun a manteisio ar y talebau. At ddiben y Cynllun, mae "**preswilydd**" yn golygu buddiolwr yn y DU nad yw'n fenter.

2. Gwybodaeth am fy nhaleb

- i.** Byddwn yn gwneud taliad am daleb yn uniongyrchol i'ch cyflenwr, ac nid i chi na'ch busnes/sefydliad. Bydd eich cyflenwr yn rhoi gwybod i ni pan fydd wedi darparu eich cysylltiad. Byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau bod y cysylltiad wedi'i ddarparu cyn talu eich cyflenwr. Bydd angen i chi ddatgan bod y gwasanaeth newydd wedi cael ei osod, a'i fod yn perfformio yn ôl y disgwyl. Os na fyddwch yn datgan hyn, ni fyddwn yn gallu talu eich taleb. Rhaid i chi ymateb i'n ceisiadau am wybodaeth cyn pen 28 diwrnod, neu gallai eich taleb gael ei chanslo.
- ii.** Ni ellir defnyddio'r daleb i dalu TAW. Ni ellir defnyddio'r daleb i dalu unrhyw gostau parhaus ar ôl i'ch cysylltiad gael ei osod.
- iii.** Yn unol ag amod 2(iv), rydym wedi cytuno â'ch cyflenwr ar uchafswm gwerth y daleb y gellir ei hawlio i dalu costau gosod cymwys eich cysylltiad. Uchafswm gwerth taleb ar gyfer BBaCh yw £2,500 a'r isafswm gwerth yw £500. Os bydd costau gosod eich cysylltiad yn fwy na £2,500, byddwch yn atebol i dalu'r gwahaniaeth i'r cyflenwr. Os bydd costau gosod eich cysylltiad yn llai na £500, ni fyddwch yn gymwys i gael cymorth taleb. Lle y bo'n berthnasol, £500 fydd gwerth talebau preswyl.
- iv.** Os ydych yn Fuddiolwr sy'n rhan o Becyn Rhag-gofrestredig prosiect yng Nghymru a gymeradwywyd gennym, o ganlyniad i gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, mae'r gwerthoedd canlynol yn berthnasol: uchafswm gwerth taleb ar gyfer BBaCh yw £5,500; lle y bo'n berthnasol, mae talebau ar gyfer buddiolwyr preswyl yn werth rhwng £500 ac £800. Nid yw argaeledd cyllid ychwanegol i gefnogi talebau mewn prosiectau yng Nghymru yn effeithio ar unrhyw delerau ac amodau eraill.
- v.** Dim ond ar gyfer costau gosod a sefydlu untro y gellir defnyddio talebau, fel y cytunwyd â'ch cyflenwr. Gall y costau hyn gynnwys ffioedd gosod; cyfarpar seilwaith allanol; costau adeiladu ychwanegol a gwaith peirianeg; a chostau sefydlu ac arolygu. Mae'r holl gyflenwyr cofrestredig wedi ymrwymo i gyfres o delerau ac amodau sy'n nodi'n glir y costau gosod sy'n gymwys neu'n anghymwys o dan delerau'r Cynllun.
- vi.** Ni ellir hawlio ar gyfer cyfarpar cyfrifiadurol na TGCh o dan y Cynllun, nac ychwaith ar gyfer taliadau refeniw am storffeydd/copïau wrth gefn/cymwysiadau fel y rheini sydd ar gael drwy wasanaethau cwmwl.
- vii.** Ni allwch ddefnyddio taleb i helpu i dalu costau cysylltiad sydd gennych eisoes nac i osod cysylltiad newydd yn lle hen un sydd eisoes â'r gallu i ddarparu cyflymderau gigabit. Ni allwch adennill unrhyw arian y byddwch wedi ei wario cyn dyddiad eich cynnig o daleb.
- viii.** Ni all y Cynllun dalu am unrhyw gostau canslo yr eir iddynt am derfynu contract presennol nac am gostau canslo sy'n gysylltiedig â chynnig gan gyflenwr y byddwch yn dewis peidio â'i dderbyn.



3. Gwybodaeth am fy natganiad

- i. Rydych yn gyfrifol am ddarparu'r holl wybodaeth y byddwn ni, neu'r corff lleol ar gyfer eich ardal sy'n ymwneud â'r Cynllun, yn gofyn yn rhesymol amdani cyn gynted ag y bo'n ymarferol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen er mwyn prosesu eich taleb neu benderfynu ar eich cymhwysedd neu swm eich dyfarniad. Os na fyddwch yn ymateb i unrhyw gais rhesymol am wybodaeth **cyn pen 28 diwrnod**, gallwn benderfynu tynnu'r cynnig o daleb yn ôl.
- ii. Rydych yn gyfrifol am gadarnhau eich bod yn bodloni gofynion cymhwysedd y Cynllun. Gofynnir i chi hunanardystio eich bod yn bodloni'r diffiniad o BBaCh¹ (Ile y bo'n berthnasol) a'ch bod yn gymwys i gael cyllid o dan y Rheoliad De Minimis.²
- iii. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth o'ch statws fel BBaCh neu unig fasnachwr os gofynnir i chi wneud hynny. Byddwn yn derbyn y dogfennau canlynol: Rhif cofrestru TAW; Rhif Elusen Gofrestredig: Hysbysiad gan CThEM; Rhif UTR unig fasnachwr; tystysgrif corffori (Cwmnïau Cyfyngedig); cyfriflen cyfrif banc busnes a gyhoeddwyd yn ystod y tri mis diwethaf; rhif cyfeirnod ardrethi annomestig. Mae'n bosibl y bydd dogfennau eraill, er enghraifft biliau cyfleustodau sy'n gysylltiedig â busnes, yn dderbyniol o dan amodau arbennig os cânt eu cyflwyno gyda dogfennau eraill.
- iv. Nid yw Amodau 3.ii na 3.iii uchod yn berthnasol i fuddiolwyr "preswyl".
- v. Rydych yn cytuno i ddarparu gwybodaeth a chymorth rhesymol i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo'r Cynllun, gan gynnwys darparu gwybodaeth ar gyfer astudiaeth achos a chymryd rhan mewn unrhyw arolygon gwerthuso a gynhelir mewn perthynas â'r Cynllun.

4. Gofynion Cysylltedd


Rhaid i bob cysylltiad a gefnogir gan daleb feddu ar y **DDWY** nodwedd ganlynol:

1. y **gallu** i ddarparu cysylltedd band eang i'ch safle sydd â chyflymder **lanlwytho a lawrlwytho o 1Gbps neu fwy** ar adeg daparu'r cysylltiad heb fod angen uwchraddio'r feddalwedd neu wneud addasiadau yn y dyfodol (ac eithrio Cyfarpar Safle Cwsmer - nid yw'n ofynnol darparu cyfarpar sydd â'r gallu i ddarparu cyflymder o 1Gbps o'r cychwyn os nad yw hyn yn ofynnol er mwyn darparu'r gwasanaeth)
1. **darparu** isafswm cyflymder o 100Mbit/e i'ch safle. Rhaid i'r gwasanaeth band eang a uwchraddiwyd arwain at "newid sylweddol" mewn cyflymder sydd, er mwyn osgoi amheuaeth, o leiaf ddwywaith yn gynt na chyflymder eich gwasanaeth presennol.

NID yw unrhyw gysylltiad presennol sydd eisoes â'r **gallu** i ddarparu cyflymder o 1Gbps neu fwy i'r naill gyfeiriad a'r llall yn gymwys i gael Taleb Gigabit.

¹ http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/conferences/state-aid/sme/smedefinitionguide_en.pdf – Canllaw i fusnesau ar y diffiniad o BBaCh

² Commission Regulation (EC) No 1998/2006 of 15 December 2006 on the application of Articles 87 and 88 of the Treaty to de minimis aid, L 379/5, OJEU, 28 Rhagfyr 2006, yn: <http://eur-lex.europa.eu/LexUriServ/LexUriServ.do?uri=OJ:L:2006:379:0005:0010:en:PDF> – canllaw ar derfynau de minimis




Ystyr "gallu" yw'r gallu i ddarparu cysylltedd o 1Gb gan ddefnyddio unrhyw dechnoleg. Mae cyflymder yn ymwneud â lanlwytho neu lawrlwytho, nid o reidrwydd ar yr un pryd. Dim ond pan fyddant yn rhan o Becyn Rhag-gofrestredig prosiect y cytunwyd arno ac yn arwain at ddarparu gwasanaeth ffeibr cyflawn ychwanegol y caniateir technolegau di-wifr.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun, pan fydd y cysylltiad terfynol wedi'i osod yn eich safle a'r gwasanaeth yn weithredol, rhaid i'r cyflenwr gadarnhau bod gan y seilwaith sy'n cefnogi eich gwasanaeth y gallu i ddarparu cysylltedd o 1Gb i chi cyn pen 10 diwrnod gwaith i archeb uwchraddio manwerthu/cyfanwerthu ddilys (neu'r amserlen fyrraf y gellir ei chyflawni o ganlyniad i gyfyngiadau rheoliadol allanol) heb fod angen cyfalaf/seilwaith/gwaith uwchraddio cyfarpar goddefol ychwanegol (ac eithrio cyfarpar safle cwsmer).

5. Amodau cyffredinol

- i.** Ni ellir trosglwyddo talebau i fuddiolwyr na safleoedd eraill.
- ii.** Nid ydym yn atebol mewn unrhyw ffordd am wallau gan ddefnyddwyr nac am ddefnydd diawdurdod o dudalennau gwe a deunyddiau cais y Cynllun gan gyflenwyr neu fuddiolwyr.
- iii.** Nid ydym yn atebol mewn unrhyw ffordd am unrhyw wybodaeth anghyflawn, anghywir neu gamarweiniol a roddir gan fuddiolwyr (sy'n eich cynnwys chi) na chyflenwyr. Os caiff gwybodaeth anghyflawn, anghywir neu gamarweiniol ei rhoi, rydym yn cadw'r hawl i naill ai ganislo'r daleb neu adennill ei gwerth yn llawn.
- iv.** Rydym yn cadw'r hawl i ddiddymu neu amrywio telerau'r Cynllun mewn unrhyw ffordd, yn unol â rhybudd rhesymol. Yn ogystal â chael gwybod am unrhyw amrywiadau i delerau'r Cynllun, mae'r telerau cyfredol ar gael ar gais unrhyw adeg.
- v.** Rydym yn cadw'r hawl i derfynu'r Cynllun ar unrhyw adeg.
- vi.** Ni chaiff sefydliadau sector cyhoeddus (gan gynnwys ysgolion gwladol) fanteisio ar y Cynllun.
- vii.** Ni chaiff ysgol sector preifat sy'n addysgu disgyblion rhwng 3 a 18 oed nac unrhyw sefydliad sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â chynnig darpariaeth o dan y gofynion i gadw pobl ifanc mewn addysg hyd nes eu bod yn 18 oed, fanteisio ar y Cynllun.
- viii.** Nid ydym yn cefnogi unrhyw gyflenwr na chynnyrch penodol, a dylech gwblhau'r holl wiriadau arferol er mwyn bodloni eich hun o ran statws y cyflenwr neu addasrwydd y cynnyrch cyn rhoi archeb uniongyrchol i'ch dewis gyflenwr.
- ix.** Nid ydym yn derbyn unrhyw atebolrwydd am unrhyw waith a wneir mewn perthynas â chysylltiad. Cyfrifoldeb y cyflenwr a ddewiswyd yw sicrhau bod y cysylltiad yn cael ei osod yn gywir a heb unrhyw golled neu ddifrod. Dylech sicrhau eich hun fod y cysylltiad wedi cael ei osod yn gywir cyn cadarnhau bod y gwaith gosod wedi'i gwblhau.
- x.** Rydych yn cytuno i ddarparu unrhyw wybodaeth a chymorth ychwanegol y gallwn yn rhesymol ofyn amdanynt o bryd i'w gilydd mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun. Gall hyn gynnwys (heb gyfyngiad) darparu mynediad rhesymol i'ch safle neu rwydwaith er mwyn ein galluogi ni neu ein hasiantau i gwblhau profion cydymffurfiaeth perthnasol.

- 
- xi.** Os byddwch yn cael unrhyw gais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n ymwneud â ni a/neu'r Cynllun, rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth honno i ni yn ddi-oed.
 - xii.** Bydd y telerau ac amodau hyn yn ddarostyngedig i gyfreithiau Lloegr ac yn cael eu dehongli yn unol â nhw, a byddant yn ddarostyngedig i awdurdodaeth benodol llysoedd Cymru a Lloegr.

6. Diogelu Data

- i.** Os ydych yn fuddiolwr corfforaethol, rhaid i chi a ninnau gydymffurfio â'r holl gyfreithiau diogelu data perthnasol. Caiff unrhyw ddata personol (mewn perthynas â'ch cyflogeion, cynrychiolwyr cwmni neu fel arall) a ddarperir gennych eu defnyddio yn unol â'n datganiad preifatrwydd, y gellir ei ddarllen yn <https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/>. Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefnau diogelu data ychwanegol y byddwn yn rhoi gwybod i chi amdanynt a sicrhau (a) eich bod wedi rhoi copi o'n datganiad preifatrwydd i'r cyfryw gyflogeion, cynrychiolwyr cwmni neu fel arall (fel y bo'n berthnasol), a (b) eich bod wedi rhoi'r holl hysbysiadau prosesu teg a/neu, fel y bo'n berthnasol, wedi cael cydsyniadau i'n galluogi i brosesu'r data perthnasol at ddiben y Cynllun.
- ii.** Bydd gennym yr hawl i ofyn i chi gydymffurfio â'r cyfryw ddarpariaethau ychwanegol y gallwn yn rhesymol benderfynu eu bod yn angenrheidiol er mwyn eich galluogi chi a'r Adran Digidol, Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon i gydymffurfio â'n priod rwymedigaethau o dan Reoliad (UE) 2016/679 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 27 Ebrill 2016 ar ddiogelu bodau dynol mewn perthynas â phrosesu data personol a dirymu Cyfarwyddeb 95/46/CE (Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) OJ L 119/1, 4.5.2016 (sef GDPR).
- iii.** Os ydych yn fuddiolwr preswyl, caiff unrhyw ddata personol a ddarperir gennych eu defnyddio yn unol â'n datganiad preifatrwydd, y gellir ei ddarllen yn <https://gigabitvoucher.culture.gov.uk/>.